# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 17 Mawrth 2023 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 20 Mawrth 2023 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 27 Mawrth 2023 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC**: Prynu Rhyddfraint llecyn tir ger Aliwel, Mynytho

**PENDERFYNIAD –**

Prynu llecyn tir ger Aliwel, Mynytho a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daniel Lewis<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 17:03:2023 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Prynu Rhyddfraint llecyn tir ger Aliwel, Mynytho**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu llecyn tir ger Aliwel, Mynytho a amlinellir yn goch ar y cynllun ynghlwm, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Gweithredu Tai (CGT) ym mis Chwefror 2021. Mae'r CGT yn ymgorffori 33 o gynlluniau sy'n gweithio tuag at y nod o sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon sy'n fforddiadwy, ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.

Byddai prynu'r safle yma yn darparu potensial ar gyfer datblygu tai gan gyfranu tuag at nod y Cynllun Gweithredu Tai o sicrhau cartrefi addas a fforddiadwy i bobl Gwynedd.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae safle Aliwel wedi ei adnabod fel safle â photensial ar gyfer datblygu tai i gyfarch anghenion lleol.

Byddai prynu'r safle yma yn darparu potensial ar gyfer datblygu pedwar o dai o fewn y blynyddoedd nesaf. Dylid nodi fod y potensial yma yn amodol ar sicrhau hawl cynllunio ar gyfer datblygu.

Nid oes hawl cynllunio cyfredol mewn lle, ac felly mae elfen o risg i fod yn prynu'r tir cyn bo hawl cynllunio wedi ei sicrhau; ond mae ystyriaeth wedi ei roi i botensial datblygu'r safle yng nghyswllt polisïau cynllunio perthnasol ac ystyriaethau datblygu ymarferol.

Bydd y pryniant i gael ei ariannu yn llwyr trwy'r Premiwn Treth Cyngor .

Nid oes bwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am y llecyn tir.

Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo'r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**


Dim.

**Prif Swyddog Cyllid:** Nid oes gennyf wrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol. Rwyf yn fodlon fod adnoddau digonol yn y gronfa berthnasol i ariannu'r pryniant.

**Swyddog Monitro:** Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Aelod/au Lleol:**

**Y Cynghorydd Angela Russell –** Dim gwyrhwynebiad




70 35 0 70 Meters

# Tir ger Aliwel, Mynytho

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd